Tymor yr Haf

Asteroid yn taro'r ddaear

Cysyniadau:	**Dod i benderfyniad, cyfiawnder, gwrthdrawiad, meddwl am eraill.**
Amcan:	**Dangos pa mor anodd ydi dod i benderfyniad.**
Cyfarpar:	**Darlun o blaned arall neu blaned ddychmygol.**

Cyflwyniad:

● Yn ôl gwyddonwyr, 65 o filiynau o flynyddoedd yn ôl daeth asteroid o'r gofod a tharo'r Ddaear. Dyma oedd y digwyddiad a fu'n gyfrifol am ddiflaniad y dinosoriaid.

● Dowch i ni ddychmygu bod gwyddonwyr wedi medru tracio asteroid arall sydd ar ei ffordd i daro'r Ddaear unwaith eto. Mae roced wedi'i hadeiladu i symud pobl o'r Ddaear i blaned arall sydd newydd gael ei darganfod. Ond fydd yna ddim amser i adeiladu roced arall. Dim ond 100 o bobl fedr fynd ar y roced i'r blaned arall.

Trafodaeth bellach:

● Pwy gaiff eu dewis i fynd ar y roced? Pam?

● Beth am i'r 100 fod yn blant neu yn henoed?

● Beth am i'r 100 fod yn wyddonwyr?

● Beth am i'r 'cyntaf i'r felin' gael mynediad?

- Beth am i chi fel unigolyn gael mynd?

- Gellir cael trafodaeth fer. Sut y dylid penderfynu pwy gaiff fynd? A ddylid penderfynu ar sail faint o arian sydd ganddynt, pa mor brydferth maen nhw'n edrych, pa mor ddeallus ydyn nhw. Pwy, yn y pen draw, sydd i benderfynu?

- Mae hyn yn ei dro yn ein rhoi mewn cyfyng-gyngor. Mewn dryswch. Cloffi rhwng dau feddwl. Dilema.

- Mae hyn yn dod i'n rhan bob dydd. Holwch y plant pa mor anodd ydi dod i benderfyniad? Faint o weithiau maen nhw'n cloffi rhwng dau feddwl?

- Dyma rai pethau i'w trafod:

- Pa wisg i'w gwisgo i fynd i'r parti?

- A ddylid gwneud gwaith cartref ar ôl dod adref o'r ysgol neu cyn mynd i'r gwely neu hyd yn oed cyn bwyta brecwast y diwrnod dilynol?

- Beth am wylio ffilm cyn mynd i gysgu? Fydd y ffilm yn codi ofn?

- Helpu Mam a Dad i olchi llestri neu eistedd i wylio'r teledu?

Stori:

Ysgol fechan, wledig oedd ysgol Nant y Rhiw. Dim ond dau ddeg wyth o blant oedd yn yr ysgol, dwy athrawes, un weinyddes feithrin a'r gogyddes yn coginio cinio i'r plant a glanhau'r ysgol ar ôl i'r plant fynd adref. Ond roedd pawb yn gweithio'n galed.

Rhyw ddiwrnod daeth dau ddyn pwysig i'r ysgol. Roedden nhw mewn siwtiau drudfawr a llyfr sgwennu yn llaw pob un. Doedd ganddyn nhw fawr o ddim i'w ddweud wrth y plant – dim ond siarad efo'r athrawon oedden nhw. Mi fuon nhw yn yr ysgol am ran helaeth o'r bore. Ond erbyn amser cinio roedd y ddau wedi diflannu.

Ddiwedd y pnawn dyma'r pennaeth yn cyhoeddi bod un o blant Blwyddyn 6 yn cael mynd i weld arddangosfa o lyfrau Roald Dahl yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn Aberystwyth. Ond pwy oedd yn cael mynd? Roedd Blwyddyn 6, y saith ohonyn nhw, yn edrych ymlaen i gael mynd, ond dim ond un oedd yn mynd i gael ei ddewis.

Bu cryn ddyfalu. Sut oedd yr athrawon a llywodraethwyr yr ysgol yn mynd i ddewis un o'r saith disgybl? Ai'r plentyn hynaf? Ond yn anffodus roedd dau yn cael eu pen-blwydd yr un diwrnod. Ai'r plentyn oedd wedi gweithio'n galed drwy'r flwyddyn neu'r plentyn oedd wedi bod yn bresennol gydol y flwyddyn? 'Does yna ddim ond un ffordd i weithredu,' meddai Cadeirydd y Llywodraethwyr, 'mae'n rhaid rhoi eu henwau i gyd mewn het ac i'r plentyn ieuengaf yn yr ysgol dynnu un enw allan.'

A dyna ddigwyddodd. Mererid gafodd fynd i weld yr arddangosfa ond mi gafodd y chwech arall fynd efo hi am y diwrnod i dref Aberystwyth.

Trafodaeth bellach:

- Oedd o'n deg rhoi enwau plant Blwyddyn 6 i gyd mewn het?

- Sut byddech chi wedi datrys y broblem?

Dywedodd Iesu Grist:

Y flaenoriaeth i chi ydy gadael i Dduw deyrnasu yn eich bywydau a gwneud beth sy'n iawn yn ei olwg ... Mathew 6:33 beibl.net

Munud i feddwl:

Mae'r gwaith o ddewis yn anodd. Gan bwy mae'r hawl i ddewis?

Emyn: Wrth ddilyn Iesu Grist: Clap a Chân i Dduw 52

Myfyrdod/Gweddi:

O Dduw, ar rai adegau pan fydda i'n ei chael hi'n anodd dod i benderfyniad, wnei di fy helpu, os gweli'n dda, i wneud y penderfyniad cywir. Diolch. Amen.